

Sunday 16th June 2024

+ The third Sunday after Trinity

The Collect of the Day

Almighty God, you have broken the tyranny of sin and have sent the Spirit of your Son into our hearts whereby we call you Father: give us grace to dedicate our freedom to your service, that we and all creation may be brought to the glorious liberty of the children of God; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Ezekiel

(17. 22-24)

Thus says the Lord God: I myself will take a sprig from the lofty top of a cedar; I will set it out. I will break off a tender one from the topmost of its young twigs; I myself will plant it on a high and lofty mountain. On the mountain height of Israel I will plant it, in order that it may produce boughs and bear fruit, and become a noble cedar.

Under it every kind of bird will live; in the shade of its branches will nest winged creatures of every kind. All the trees of the field shall know that I am the Lord. I bring low the high tree, I make high the low tree; I dry up the green tree and make the dry tree flourish. I the Lord have spoken; I will accomplish it.

The Psalm

(92. 1-8)

It is a good thing to give / thanks to the / Lord: and to sing praises to your / name, / O Most / High; To tell of your love early / in the / morning: and of your / faithfulness / in the / night-time, upon the ten-stringed instrument, up/on the / harp: and to the / melody / of the / lyre.

For you, Lord, have made me glad / by your / acts: and I sing aloud at the / works / of your / hands. O Lord, how glorious / are your / works!: Your / thoughts are / very / deep.

The senseless do not know, nor do fools / under/stand: that though the wicked sprout like grass * and all the / workers • of in/iquity / flourish, It is only to be des/troyed for / ever: but you, O Lord, shall be ex/altered for / ever/more.

The reading from 2 Corinthians

(5. 6-17)

Brothers and sisters, we are always confident; even though we know that while we are at home in the body we are away from the Lord - for we walk by faith, not by sight. Yes, we do have confidence, and we would rather be away from the body and at home with the Lord. So whether we are at home or away, we make it our aim to please him. For all of us must appear before the judgement seat of Christ, so that each may receive recompense for what has been done in the body, whether good or evil.

Therefore, knowing the fear of the Lord, we try to persuade others; but

we ourselves are well known to God, and I hope that we are also well known to your consciences. We are not commanding ourselves to you again, but giving you an opportunity to boast about us, so that you may be able to answer those who boast in outward appearance and not in the heart. For if we are beside ourselves, it is for God; if we are in our right mind, it is for you.

For the love of Christ urges us on, because we are convinced that one has died for all; therefore all have died. And he died for all, so that those who live might live no longer for themselves, but for him who died and was raised for them.

From now on, therefore, we regard no one from a human point of view; even though we once knew Christ from a human point of view, we know him no longer in that way. So if anyone is in Christ, there is a new creation: everything old has passed away; see, everything has become new!

The reading from the Gospel

according to Saint Mark

(4. 26-34)

Such a large crowd gathered around Jesus that he got into a boat and began to teach them using many parables. Jesus said, 'The kingdom of God is as if someone would scatter seed on the ground, and would sleep and rise night and day, and the seed would sprout and grow, he does not know how. The earth produces of itself, first the stalk, then the head,

then the full grain in the head. But when the grain is ripe, at once he goes in with his sickle, because the harvest has come.'

He also said, 'With what can we compare the kingdom of God, or what parable will we use for it? It is like a mustard seed, which, when sown upon the ground, is the smallest of all the seeds on earth; yet when it is sown it grows up and becomes the greatest of all shrubs, and puts forth large branches, so that the birds of the air can make nests in its shade.'

With many such parables he spoke the word to them, as they were able to hear it; he did not speak to them except in parables, but he explained everything in private to his disciples.

The Collect following Communion

O God, whose beauty is beyond our imagining and whose power we cannot comprehend: show us your glory as far as we can grasp it, and shield us from knowing more than we can bear until we may look upon you without fear. AMEN

Colect y Dydd

Hollalluog Dduw, torraist ormes pechod ac anfon Ysbryd dy Fab i'n calonnau a thrwyddo yr ydym yn dy alw'n Dad: dyro i ni ras i gysegru ein rhyddid i'th wasanaeth, fel y dygir ni a'r greadigaeth gyfan i ryddid gogoneddus plant Duw; trwy lesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseciel

(17.22-24)

"Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: Cymeraf finnau hefyd frigyn o ben y gedrwydden a'i blannu; torraf flagur tyner o'r blaenion a'i blannu ar fynydd mawr ac uchel. Ar fynydd-dir uchel Israel y plannaf ef; fe dyf ganghennau, a rhoi ffrwyth a dod yn gedrwydden odidog.

Bydd adar o bob math yn nythu ynddo, ac yn clwydo yng nghyngod ei gangau. Bydd holl goed y maes yn gwybod mai myfi'r ARGLWYDD sy'n darostwng y goeden uchel ac yn codi'r goeden isel, yn sychu'r goeden iraidd ac yn bywiocáu'r goeden grin. Myfi, yr ARGLWYDD, a lefarodd, ac fe'i gw纳af."

Salm

(92.1-8)

Da yw moliannu'r ARGLWYDD, a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf, a chyhoeddi dy gariad yn y bore a'th ffyddlondeb bob nos, gyda'r dectant a'r nabl a chyda chordiau'r delyn.

Oherwydd yr wyt ti, O ARGLWYDD, wedi fy llawenychu â'th waith; yr wyf yn gorfoleddu yng ngweithgarwch dy ddwylo. Mor fawr yw dy weithredoedd, O ARGLWYDD, a dwfn iawn dy feddyliau!

Un dwl yw'r sawl sydd heb wybod, a ffâl yw'r un sydd heb ddeall hyn: er i'r annuviol dyfu fel glaswellt ac i'r holl wneuthurwyr drygioni lwyddo, eu bod i'w dinistrio am byth, ond dy fod ti, ARGLWYDD, yn dragwyddol ddyrchafedig.

Darlleniad o 2 Corinthiaid

(5. 6-17)

Am hynny, yr ydym bob amser yn llawn hyder. Gwyddom, tra byddwn yn cartrefu yn y corff, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd; oherwydd yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, nid yn ôl golwg. Yr ydym yn llawn hyder, meddaf, a gwell gennym fyddai bod oddi cartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd. Y mae ein bryd, felly, gartref neu oddi cartref, ar fod yn gymeradwy ganddo ef. Oherwydd rhaid i bawb ohonom ymddangos gerbron brawdle Crist, er mwyn i bob un dderbyn ei dâl yn ôl ei weithredoedd yn y corff, ai da ai drwg.

Felly, o wybod beth yw ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio pobl; y mae'r hyn ydym yn hysbys i Dduw, ac rwy'n gobeithio ei fod yn hysbys i'ch cydwybod chwi hefyd. Nid ydym yn ein cymeradwyo ein hunain unwaith eto i chwi, ond rhoi cyfle yr ydym i chwi i ymffrostio o'n hachos ni, er mwyn ichwi gael ateb i'r rhai sy'n ymffrostio yn yr hyn sydd ar yr wyneb yn hytrach na'r hyn sydd yn y galon.

Os ydym allan o'n pwyll, er mwyn Duw y mae hynny; os ydym yn ein hiawn bwyll, er eich mwyn chwi y mae hynny.

Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a ninnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A bu ef farw dros bawb er mwyn i'r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd. O hyn allan, felly, nid ydym yn ystyried neb o safbwyt dynol. Hyd yn oed os buom yn ystyried Crist o safbwyt dynol, nid ydym yn ei ystyried felly mwyach. Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Marc

(4.26-34)

Ac meddai, "Fel hyn y mae teyrnas Dduw: bydd dyn yn bwrw'r had ar y ddaear ac yna'n cysgu'r nos a chodi'r dydd, a'r had yn egino ac yn tyfu mewn modd nas gŵyr ef. Ohoni ei hun y mae'r ddaear yn dwyn ffrwyth, eginyn yn gyntaf, yna tywesen, yna ŷd llawn yn y dywysen. A phan fydd y cnwd wedi aeddfedu, y mae'n bwrw iddi ar unwaith â'r cryman, gan fod y cynhaef wedi dod."

Meddai eto, "Pa fod y cyffelybwn deyrnas Dduw, neu ar ba ddameg y cyflwynwn hi? Y mae'n debyg i hedyn mwstard; pan heuir ef ar y ddaear, hwn yw'r lleiaf o'r holl hadau sydd ar y ddaear, ond wedi ei hau, y mae'n tyfu ac yn mynd yn fwy na'r holl lysiau, ac

yn dwyn canghennau mor fawr nes bod adar yr awyr yn gallu nythu dan ei gysgod."

Ar lawer o'r fath ddamhegion yr oedd ef yn llefaru'r gair wrthynt, yn ôl fel y gallent wrando; heb ddameg ni fyddai'n llefaru dim wrthynt. Ond o'r neilltu byddai'n egluro popeth i'w ddisgyblion ei hun.

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

O Dduw, sydd â'th brydferthwch y tu hwnt i'n dychymyg a'th nerth y tu hwnt i'n deall: dangos i ni dy ogoniant i'r graddau y gallwn ei amgyffred, ac amddiffyn ni rhag gwybod mwy nag y gallwn ei oddef nes y cawn edrych arnat yn ddi-ofn; trwy lesu Grist ein Gwaredrwr. AMEN

